CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 28ain MEHEFIN 2016.

PRESENNOL:
Cynghorydd Ms Linda Jones (Cadeirydd), Mr Einion Parry Williams, Mr Edward J Thomas, Mrs Janet Hughes, Mr W Raymond Evans, Mr John D Pritchard, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen & Mr J Alun Foulkes (Clerc). Cynghorwyr Sirol: Mr Victor Hughes a Mr Eifion Jones.

YMDDIHEURIAD:
Cynghorwyr(wraig) Mrs Barbara McKeaveney, Mrs Catherine Jean Hughes a Mr Meirion Thomas.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.2 Cydymdeimlwyd gyda Cyng Barbara McKeaveney yn dilyn marwolaeth ei mam ac hefyd Cyng Janet Hughes ar ol iddi colli ei thad yn ddiweddar.

1.3 Nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb mewn unrhyw eitem ar rhaglen y cyfarfod.

2 YMGYNGHORIAD NEWYDD & THRAFODAETH SAFLE Y SIPSIWN/TEITHWYR

2.1 Croesawyd Dr Gwynne Jones a Mr Dafydd Rowlands o'r Cyngor Sir ynghyd a Cynghorydd Sirol Mr Aled Morris Jones i'r cyfarfod. Fe rhoddwyd Dr Gwynne Jones cyflwyniad odditeu hanner awr i'r aelodau gan cyfeirio at y pwyntiau priodol oedd wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghoriad ac ar ol iddo orffen, fe cafwyd yr aelodau y cyfle i ofyn cwestiynnau perthnasol gyda trafodaethau yn canolbwyntio ar Safle 2, sef Parsel o dir mewn man-daliad yn y Gaerwen. Fe godwyd sawl pryderon gan yr aelodau ac oherwydd amseriad y cyfarfod, fe rhoddwyd Dr Jones amser ychwanegol (4ydd Gorffennaf) er mwyn ymateb. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am cymeryd yr amser i fynychu'r cyfarfod.

2.2 Penderfynwyd gofyn i'r Clerc llunio ymateb i'r ymgynghoriad a chyfeirio at y pwyntiau a godwyd, fel engraifft, y safle a'r mynedfa, criteria sgorio gyda tystiolaeth cefnogol ar sawl agweddau ac y niwed i ddatblygiad y Parc Gwyddoniaeth.

3 ADRODDIAD YR HEDDLU.

3.1 Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi gwneud sawl ymdrech o ofyn i'r Heddlu am fynychu ein cyfarfod heno er mwyn adrodd yn nol atom gyda pryderon a godwyd yn Mis Chwefror ond, eto, mae'n amlwg na fyddant yn presennol.
Penderfyniad: Atgoffa PCSO Shakespeare unwaith yn rhagor ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

Arwyddo.....

4 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Eifion Jones ar y canlynol:

4.1 Ysgol Esceifiog – cafwyd adroddiad cryno ganddo lle mae angen safle ychwanegol – dywedodd ei fod wedi siarad gyda'r Pwyllgor Gwaith ac fod angen arian ychwanegol. Dywedodd y bydd ymgynghoriad yn Mis Hydref gyda Ysgol Llangefni ac o gwmpas yr ardal ac ei fod wedi ystyried Ysgol yn y Gaerwen yn y broses ac y bydd y Cynulliad yn ariannu odditeu 50% o'r gwaith sydd angen. Hefyd, y bydd angen datrys y broblem mewn prinder Athrawon ar draws yr Ynys.

4.2 Grid Cenedlaethol – adroddiad ganddo yn cyfeirio at y newyddion diweddaraf gwaith ardal Afon Menai.

5 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

5.1 Cywiro cofnod 7.6 lle cyfeiriwyd at 'Canolfan Hamdden' ac nid 'Canolfan Esceifiog'.

5.2 Cywiro cofnod 12.1 lle dylai fod wedi nodi fod Cyng Raymond Evans wedi paratoi ymateb ar rhan y Cyngor er mwyn i'r Clerc arwyddo.

5.3 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 24ain o Mai 2016 yn gywir. (EW/IO).

6 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

6.1 Fforwm Mynediad Lleol – disgwyl tan Mis Medi er mwyn ystyried penodi cynrychiolydd newydd ar rhan y Cyngor Cymuned.

7 MATERION CAEAU CHWARAE.

7.1 DIM ADRODDIAD.

8 MATERION LLWYBRAU.

8.1 DIM ADRODDIAD.

9 MATERION PRIFFYRDD.

9.1 Dosbarthwyd dogfen Rhaglen Cynnal & Chadw Priffydd y Cyngor Sir am 2016-2017 ac y balchder o weld swm sylweddol yn cael ei fuddsoddi. Nodwyd yr adroddiad.

9.2 **Ffordd Pentre Berw i'r Stad Diwydiannol** – adroddiad a cadarnhad y bydd y gwaith cynnal a chadw wedi ei cwblhau ymhen pythefnos. Nodwyd yr adroddiad.

Arwyddo.....

9.3 **Materion Dwr ym Mhentre Berw –** adroddiad a cadarnhad yn dilyn glaw trwm ar y 6ed Mehefin ac mesurau y bwriedir y Cyngor Sir o ddelio gyda 'manhole' oedd wedi codi unwaith yn rhagor. Nodwyd yr adroddiad.

9.4 **Cau Ffordd Dros Dro - Croesfan Rheilffordd Gaerwen –** nodwyd gorchymyn y Cyngor Sir y bydd y safle yn cau dros dro yn hwyr Nos Sul (11:20yh 16 Gorffennaf) tan bore wedyn (7:10yb 17 Gorffennaf) ac eto am yr un cyfnod penwythnos y 23ain a 24ain Gorffennaf.

9.5 **Gordyfiant Pafin (Hen Safle Little Chef) –** nodwyd y cwyn a gofyn i'r Clerc anfon llythyr i'r Cyngor Sir.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD & PENDERFYNIADAU Y CYNGOR SIR.

10.1 Cais Llawn ar gyfer Codi Ystafell Haul & Chais Adran 73 i ddiwygio amod (07) o ganiatad Cynllunio Rhif 33C209F (codi annedd) er mwyn diwydio deunyddiau allanol yn:
LLEOLIAD: Terfyn, Pentre Berw,Gaerwen.
Rhif Ceisiadau 33C209J & 33C209H/VAR – **DIM SYLWADAU.**

10.2 Cais Llawn ar gyfer Dymchwel Storfa presennol ynghyd a codi storfa newydd yn:
LLEOLIAD: Plas Farm Ltd, Stad Diwydiannol Gaerwen. Rhif Cais 33C20X/3.
Penderfyniad: **DIM SYLWADAU.**

10.3 Cais Llawn ar gyfer Addasu & Ehangu yn:
LLEOLIAD: Bryn Teg, Pentre Berw, Gaerwen. Rhif Cais: 33C296A.
Penderfyniad: **DIM SYLWADAU.**

11 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

11.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Mehefin 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

11.2 **Gweinyddu & Rheoli Risg:**

11.2.1 Adroddodd y Clerc fod siec rhent CPD Gaerwen 2014-2015 am £261.00 wedi ei wrthod gan y banc ac fod aelod o'r clwb wedi danfon arian parod yn ei lle. Fe fydd rhaid ystyried unrhyw costau banc ac ychwanegu at y bil eleni pan fydd yn dyledus.

Arwyddo.....

11.3. **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 11.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

199	HCS Plumbing & Heating	Boilar Newydd Canolfan Esceifiog	£975.00 + TAW
200	Cyngor Sir Ynys Mon	Rhent Hen Ysgol	£1.00
201	O G Jones	Torri Llwybrau	£430.00 + TAW
202	Anghenion Swyddfa Gwynedd	Copio	£148.80 + TAW
203	J Alun Foulkes	Cyflog Mis Mehefin 2016	£240.00
204	HMRC	PAYE	£60.00

12. ADRODDIADAU.

12.1 DIM ADRODDIAD.

13 GOHEBIAETH

13.1 Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Atodol a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – nodi cyfarfod cyn-wrandawiad gynhaliwyd ar y 14 Mehefin 2016 yng Nghaernarfon er gwybodaeth un unig.

13.2 Grid Cenedlaethol – Newyddion Diweddaraf Gwaith Ardal Afon Menai – eisoes wedi ei drafod ac fe nodir newyddion diweddaraf y prosiect.

13.3 Rhybudd Cyfarfod Un Llais Cymru (Cangen Ynys Mon) – 7fed Gorffennaf 2016.

13.4 Rhybudd Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned – 21ain Gorffennaf 2016.

13.5 Blaenrhaglen Pwyllgor Gwaith – Gorffennaf 2016 – Chwefror 2017 er gwybodaeth yn unig.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 28ain GORFFENNAF 2015.

14.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:20yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.